OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2008 Rhif 1583 (Cy.158 )

# ANIFEILIAID, CYMRU

## IECHYD ANIFEILIAID

Rheoliadau'r Tafod Glas (Cymru) (Diwygio) 2008

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau.)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Tafod Glas (Cymru) 2008 (“y prif Reoliadau”) drwy ddisodli'r ail gyfeiriad yn rheoliad 17 o'r prif Reoliadau at “yr Ysgrifennydd Gwladol” â “Weinidogion Cymru”.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2008 Rhif 1583 (Cy.158 )

# ANIFEILIAID, CYMRU

## IECHYD ANIFEILIAID

## Rheoliadau'r Tafod Glas (Cymru) (Diwygio) 2008

*Gwnaed* *18 Mehefin 2008*

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru*

*18 Mehefin 2008*

*Yn dod i rym* *19 Mehefin 2008*

Mae Gweinidogion Cymru wedi'u dynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) o ran polisi amaethyddol cyffredin y Gymuned Ewropeaidd.

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972.

**Enwi, cymhwyso a chychwyn Rheoliadau'r Tafod Glas (Cymru) (Diwygio)**

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw 2008; maent yn gymwys o ran Cymru ac yn dod i rym ar 19 Mehefin 2008.

**Diwygio**

**2.** Yn rheoliad 17 o Reoliadau'r Tafod Glas (Cymru) 2008(**3**) dileer yr ail gyfeiriad at “yr Ysgrifennydd Gwladol” ac yn ei le rhodder “Weinidogion Cymru”.

---

(**1**) O.S. 2005/2766. Yn rhinwedd adrannau 59(1) a 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraffau 28 a 30 o Atodlen 11 iddi, mae swyddogaethau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn arferadwy gan Weinidogion Cymru.
(**2**) 1972 p. 68.
(**3**) O.S. 2008/1090 (Cy.116)

*Elin Jones*

Y Gweinidog  dros Faterion Gwledig, un o
Weinidogion Cymru

18 Mehefin 2008